# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

## Taliadau i Aelodau Etholedig

https://www.llyw.cymru/taliadau-i-aelodau-etholedig/cynghorau-tref-a-chymuned

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n gyfrifol am bennu'r lwfansau sy'n daladwy i aelodau etholedig cynghorau tref a chymuned yng Nghymru.

- Rhaid i gynghorau tref a chymuned dalu £156 y flwyddyn (cyfystyr â £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y bydd rhaid i'r aelwyd eu talu (gan gynnwys gwres, golau, ynni, a band eang) o ganlyniad i weithio gartref.

- Rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa.

- Rhaid i gynghorau tref a chymuned yng Ngrŵp 1 sicrhau bod taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i isafswm o 1 ac uchafswm o 7 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Dim ond Cadeirydd Cyngor Cymuned Penmynydd a Star sy'n cael hawlio'r taliad hwn. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £156 tuag at y treuliau ychwanegol y bydd rhaid i'r aelwyd eu talu o ganlyniad i weithio gartref a £52 y flwyddyn am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl.

Bydd y taliadau'n cael eu talu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd taliad pro-rata yn cael ei wneud os yw aelod yn gadael neu newid ei rôl yn ystod y flwyddyn ariannol.

## Gwrthod y taliad

Yr wyf i _____ yn gwrthod y taliadau lwfans uchod.

Llofnod _____ Dyddiad _____

### Cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol

Mae Cyngor Cymuned Penmynydd a Star hefyd yn darparu ar gyfer y cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol ar gyfer dibynnydd o dan 16 mlwydd oed, neu berson ifanc neu oedolyn sydd fel arfer yn byw gyda'r aelod fel rhan o'i deulu ac na ellir ei adael heb oruchwyliaeth (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol). Diben hyn yw galluogi Aelodau sydd ag anghenion cymorth personol neu gyfrifoldebau gofalu i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol fel aelod o'r Cyngor. Dim ond ar ôl dangos derbynebau gan y darparwr gofal y bydd taliadau'n cael eu gwneud. **Ni effeithir eich hawl i dderbyn y cyfraniad hwn wrth arwyddo'r ddogfen hon.**